

EVANS, DAVID DAVIES (1787 - 1858), Pontrhydyrynn, gweinidog y Bedyddwyr, a golygydd

Enw: David Davies Evans

Dyddiad geni: 1787

Dyddiad marw: 1858

Rhiant: David Evans

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: gweinidog y Bedyddwyr, a golygydd

Maes gweithgaredd: Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Argraffu a Chyhoeddi

Awdur: William Joseph Rhys

Ganwyd 27 Mawrth 1787, yn Dolgoch, Sir Aberteifi. Magwyd ef ym Maesyberllan, eglwys ei dad, **David Evans**. Dechreuodd bregethu 21 Ionawr 1807, a bu 18 mis yng Ngholeg y Fenni. Derbyniodd alwad o'r Tabernacl, Caerfyrddin, i olynu **Titus Lewis**; ordeiniwyd ef ym Maesyberllan cyn mynd yno, a sefydlwyd 25 Mawrth 1812. Cliriodd ddyled yr addoldy newydd yno drachefn. Pregethai yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac fe'i cyfrifid yn un o arweinwyr doethaf yr enwad. Oblegid gwendid ymddeolodd yn 1857, gan fyned i Gaerdydd. Symudodd ymhen chwe mis drachefn i Gaerfyrddin. Wedi ei farwolaeth ar 29 Awst 1858 fe'i claddwyd ym Mhontrhydyrynn. Oblegid dadfeiliad iechyd trosglwyddodd **Joseph Harris** *Seren Gomer* a'i golygyddiaeth yn Ebrill 1825 iddo ef; eithr yn 1834 rhoes yntau ei golygyddiaeth i'w gynorthwyr **Samuel Evans**. Gwelid ei gynhyrchion yn y cyfnodolion, ac efe a ysgrifennodd ' Adnoddau Cymru ' yn *Yr Adolygydd*, a rhan o fywgraffiad John Williams, Trostant.

Awdur

Y Parchedig William Joseph Rhys, (1880 - 1967)

Ffynonellau

Seren Gomer, 1858, 478

J. Rufus Williams, *Hanes Athrofeydd y Bedyddwyr yn Sir Fynwy yn nghyd Ȃç byr grybwylliad am athrofeydd Hwlffordd a Llangollen* (AberdȂçr 1863), 34

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20732799

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Prifannu

Arddull APA

x

Rhys, W. J., (1953). EVANS, DAVID DAVIES (1787 - 1858), Pontrhydyrynn, gweinidog y Bedyddwyr, a golygydd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EVAN-DAV-1787>

Prifannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government